GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Bron Brawf Cymru Breast Test Wales

# Ydy sgrinio'r fron yn iawn i chi?



Gofynnwch i aelod o staff eich helpu i ddeall yr wybodaeth hon.



Eich dewis chi yw cael prawf y fron.



Y ffordd orau o chwilio am ganser y fron yw drwy gael prawf pelydr-X.

Mae hwn yn cael ei alw yn **sgrinio'r** fron.



Rydych chi’n gallu teimlo’n iawn a dal i gael canser y fron.

Mae profion y fron yn gallu ffeindio canser y fron nad ydych chi’n gallu ei weld na’i deimlo.



Bydd y rhan fwyaf o bobl sy’n cael canser y fron yn gwella.

Os byddwn ni’n dod o hyd i ganser y fron yn gynnar, mae’n haws i’ch trin chi.



Mae sgrinio’r fron yn arbed bywydau.



Rydych chi'n gallu siarad ag aelod o staff os ydych chi'n poeni neu angen cymorth.



Bydd y peiriant yn pwyso i lawr ar eich bron. Efallai bydd yn brifo ychydig.

Ni ddylai'r boen bara'n hir.




Mae sgrinio'r fron yn ddiogel i'r rhan fwyaf o bobl.

Mae siawns fach iawn y gallai cael pelydrau-X achosi canser.





Rhowch wybod i ni os ydych chi wedi cael pelydr-X o’r fron yn ystod y **6 mis diwethaf.**



Byddwn yn cynnig triniaeth i chi os byddwn yn dod o hyd i ganser y fron.

Efallai byddwch yn cael triniaeth am ganser na fyddai wedi eich gwneud chi’n sâl.



Dydy sgrinio ddim bob amser yn dod o hyd i ganser y fron.

Fydd cael prawf sgrinio’r fron ddim yn eich atal rhag cael canser y fron.



Siaradwch â’ch meddyg os byddwch chi’n gweld neu’n teimlo newid yn eich bronnau.

Mae hyn yn bwysig hyd yn oed os ydych chi wedi cael prawf sgrinio.